

## Gweithdrefn Gwyno Llywodraethu Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhoi hawl i chi gael mynediad at wybodaeth y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei gadw. Mae gennych hawl i gwyno ynghylch yr ymateb rydych chi'n ei gael ynglŷn â'ch cais am wybodaeth yn ogystal â chwyno am achosion eraill o dorri'r deddfwriaethau uchod.

Yn y weithdrefn hon, mae 'cwyn' yn cyfeirio at fynegiant o anafdonrwydd gyda chydymffurfiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda'r ddeddfwriaeth uchod neu gais am adolygiad mewnol o'r penderfyniad i gadw gwybodaeth yn ôl wrth ymateb i gais i gael gafael ar wybodaeth sydd wedi'i gofnodi.

### Sut i gwyno

Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich cais am adolygiad mewnol neu gwyn yn ysgrifenedig i ni, cyfeiriwch eich cwynion i:

Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Blwch Post 1  
Conwy  
LL30 9GN  
Rhif ffôn: 01492 574016  
[uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk](mailto:uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk)

Lle y bo'n bosibl, fe ddylech ddarparu tystiolaeth ategol ynghyd â'ch cwyn. Bydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei ddarparu yn cael ei ddefnyddio i helpu i asesu eich cwyn. Lle y bo'n briodol, bydd ailwerthusiad llawn o'r achos yn cael ei gynnal, gan gymryd y materion rydych chi wedi'u codi i ystyriaeth.

Yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor o dan Fesur y Gymraeg 2011, gall rhywun gwyno yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd y broses gwynion yn cael ei dilyn yn unol â'r dewis hwn (h.y. anfon llythyr cydnabyddiaeth, llythyr ymateb Cymraeg ac ati).

### Am beth allwch chi wneud cwyn?

#### ***Cwynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol:***

<b>1. Cwyno am y modd y cafodd cais ei thrin:</b>	Er enghraifft, ein methiant i ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith neu egluro pam ein bod angen mwy nag 20 diwrnod gwaith. Ein methiant i ddarparu cyngor a chymorth cywir. Ein methiant i ddarparu gwybodaeth yn y fformat y gofynnwyd amdano. Ein methiant i roi eglurhad cywir am unrhyw reswm dros wrthod cais. Ein penderfyniad i atal gwybodaeth naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl.
<b>2. Terfynau Amser ar gyfer Ymateb:</b>	Ein nod yw ymateb yn brydlon ond mewn unrhyw amgylchiadau o fewn 20 diwrnod gwaith.

#### ***Cwynion Diogelu Data:***

<b>1. Cwyno am y modd y cafodd cais ei thrin:</b>	Ein methiant i ymateb o fewn 1 mis. Ein bod wedi gwrthod caniatáu mynediad at wybodaeth. Ein penderfyniad i atal rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.
---	--

<b>2. Os ydych chi'n teimlo GDPR wedi'i dorri mewn cysylltiad â'ch data:</b>	Er enghraifft, sut y gallai eich data personol fod wedi cael ei ddefnyddio neu ei rannu.
<b>3. Terfynau Amser ar gyfer Ymateb:</b>	Ein nod yw ymateb yn brydlon ond mewn unrhyw amgylchiadau o fewn un mis calendr.

### **Beth y gallwch ei ddisgwyl:**

- Bydd eich cwyn yn cael ei ystyried yn rhad ac am ddim.
- Cydnabyddir derbyn eich cais cyn pen 5 diwrnod gwaith.
- Pan ddaw hi'n amlwg y bydd penderfynu ar y cais ac unrhyw ymateb dilynol yn cymryd yn hirach na'r terfynau amser y cyfeiriwyd atynt (er enghraifft oherwydd cymhlethdod neu natur yr achos penodol), cewch wybod hynny ac fe gewch chi eglurhad dros yr oedi.

### **Beth allwch chi ei wneud os nad ydych chi'n fodlon gyda'r ymateb i'ch cwyn?**

Os nad ydych chi'n gwbl fodlon gyda'r modd y cafodd eich cwyn ei ddatrys, mae gennych hawl i apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad; mae modd cysylltu drwy ysgrifennu i:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH.

Neu ewch i: [Swyddfa Cymru | SCG](#)

Mae Hysbysiad Preifatrwydd yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth ar gael drwy [Information Governance Privacy Notice - E \(conwy.gov.uk\)](#)




Mae Hysbysiad/Hysbysiadau Preifatrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael drwy'r ddolen ganlynol.

[Hysbysiad Preifatrwydd Llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

### **Sut i fynegi eich cwyn**

**Gallwch fynegi eich cwyn trwy ddefnyddio un o'r dulliau isod.**

- Gallwch ysgrifennu llythyr atom a'i anfon i'r cyfeiriad canlynol:

	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Uned Llywodraethu Gwybodaeth Blwch Post 1 Conwy LL30 9GN
	<a href="mailto:uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk">uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk</a>
	01492 576070  Gall cleientiaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu <b>18001</b> cyn y rhif y maent ei angen.



Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ddefnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion, drwy Wasanaeth InterpretersLive!, a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i [www.conwy.gov.uk/Contact-Us/sign](http://www.conwy.gov.uk/Contact-Us/sign)